

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

27 Medi 2017

Yn Bresennol: Cynghorydd G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.30am a 11.45am - 1.10pm)

1. Personol

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor am farwolaeth drist Mr Phil Bennett yn ddiweddar. Roedd Mr Bennett wedi gweithio i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol am flynyddoedd lawer ac wedi ymddeol o'i swydd fel Rheolwr Treftadaeth Ddiwylliannol fis Awst 2016. Safodd pawb oedd yn bresennol am funud o dawelwch i gofio amdano.

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd M Evans, Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries a Dr R Heath-Davies.

3. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9^{fed} o Awst 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9^{fed} o Awst 2017.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

(a) Aelodaeth Pwyllgorau (Cofnod 16)

Roedd y swyddi gwag oedd yn weddill bellach wedi'u llenwi, gyda'r Cynghorydd P Kidney yn cynnig eistedd ar y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a'r Cynghorydd K Doolin yn cynnig eistedd ar y Pwyllgor Apeliadau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penodiadau uchod.

(b) Penodi Swyddog Monitro (Cofnod 17)



Dyweddod y Prif Weithredwr bod y swydd wedi'i hysbysebu gyda dyddiad cau o ran cyflwyno ceisiadau ar y 4ydd o Hydref 2017. Roedd Cyngor Sir Penfro hefyd wedi cael gwybod am y swydd wag.

NODWYD.

5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Cyhoeddodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol ar ran yr Awdurdod:

- Mynychu amrywiol ddigwyddiadau dros dri diwrnod Sioe'r Sir, gan gynnwys croesawu'r Gweinidog, Lesley Griffiths, a dderbyniodd gyflwyniadau ar y Prosiect Llwybrau a'r Prosiect Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol. Hefyd cyflwynwyd y diweddaraf yn y gyfres o bosteri mewn ffrâm iddi a gyhoeddir gan yr Awdurdod sy'n lun o Gapel Santes Non. Hefyd dywedodd y Cadeirydd bod yr Awdurdod wedi ennill yr ail wobwr am y Stondin Gorau yn y sioe, a diolchodd i'r staff am lwyddo i gyflawni hyn.
- Croesawu nifer o longau mordeithio fu'n ymweld ag Abergwaun, ar y cyd â'r Cyngor Sir a Siambr Fasnach Abergwaun. Y gobaith oedd y byddai'r rhain yn dod â budd economaidd i'r Parc Cenedlaethol.
- Mynychu Derbyniad Ymgysylltu â'r Fyddin oedd yn gwahodd cymryd rhan yng Nghyfamod y Fyddin oedd â'r nod o helpu pobl sydd wedi gadael y lluoedd arfog drwy gynnig hyfforddiant a chyflogaeth iddynt.
- Mynychu cinio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol lle trafodwyd gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys prosiect Llwybrau yr Awdurdod.

6. Pwyllgor Rheoli Datblygu – Adroddiad y Cyfarfod

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Awst 2017.

7. Adroddiad Monitro Blynyddol 2017 ar Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Roedd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc wedi atgoffa'r Aelodau bod yr Awdurdod bob blwyddyn yn llunio Adroddiad Monitro Blynyddol, sy'n edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol flaenorol o 1 Ebrill i 31 Mawrth, ac yn asesu i ba raddau y mae strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn cael eu gwireddu. Ar ddechrau'r ddogfen tynnir sylw at y canfyddiadau allweddol sy'n nodi lle'r oedd materion wedi codi a pha gamau pellach oedd angen eu cymryd. Byddai'r materion hyn yn parhau i dderbyn sylw fel rhan o'r gwaith o ddiwygio'r Cynllun Datblygu Lleol.

Nodwyd y byddai'r adroddiad yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac y byddai unrhyw adborth yn cael ei ddwyn gerbron yr Aelodau pan ystyrir yr adroddiad blynyddol nesaf.



Tynnodd un Aelod sylw at nifer o gyfeiriadau yn yr adroddiad at ymagwedd anghyson Cyfoeth Naturiol Cymru o ran datblygu ar orlifdir. Dywedodd y swyddog bod y mater wedi'i godi gyda Llywodraeth Cymru ac aelodau eraill o Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ac y byddai'r mater yn cael ei ddilyn ymhellach. Holodd Aelod arall, o ran ansawdd dyfroedd mewndirol ac arfordirol, pryd y gellir disgwyl penderfyniad ar ddynodi Parth Perygl Nitradau yn Sir Benfro. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod ar ddeall bod penderfyniad gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ohirio ac y gwneir penderfyniad o bosibl erbyn diwedd y flwyddyn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn yr 31^{ain} o Hydref 2017.

8. Adroddiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar Berfformiad Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2016/17

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod bob blwyddyn yn llunio Adroddiad Perfformiad Cynllunio Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref. Roedd yr adroddiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y safonau gwasanaeth a nodir yn Fframwaith Perfformiad Cynllunio Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canfyddiadau Adroddiadau Perfformiad Blynyddol awdurdodau cynllunio lleol.

Roedd yr Awdurdod yn perfformio'n dda ar y cyfan, gydag ond ychydig o feysydd oedd yn peri pryder, ond roedd y swyddogion o'r farn y gellid mynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Gan ddiolch iddynt am adroddiad defnyddiol, tynnodd un Aelod sylw at fodloni'r mesur yn rhannol ynglŷn â chofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio. Dywedodd y swyddogion fod archeb wedi'i wneud am System Rheoli Dogfennau fyddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn, a'r gobraith oedd y byddai'r system hon ar gael fis Hydref. Fodd bynnag, roedd materion technegol wedi achosi oedi. Roedd y swyddog yn hyderus y byddai'r materion technegol hyn wedi'u datrys yn ystod y misoedd nesaf hyn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Cynllunio Blynyddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2016/17 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn yr 31^{ain} o Hydref 2017.

9. Canolfan Groeso Trefdraeth

Dywedwyd bod y modd yr oedd yr Awdurdod yn darparu ei wasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr wedi newid dros nifer o flynyddoedd ac mewn cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Medi 2016 cytunwyd y dylai ei ddulliau symud i fwrdd o'r model traddodiadol 'canolfan ymwelwyr' o ddarparu gwasanaeth er mwyn buddsoddi mewn pecyn o fentrau newydd



mewn partneriaeth â'r fasnach dwristiaeth a'r gymuned leol. Er budd yr Aelodau newydd, roedd y Cyfarwyddwr Cyflawni a Darganfod wedi crynhoi'r broses a ddilynwyd hyd yn hyn. Roedd hyn wedi arwain at gyflwyno dau opsiwn ffurfiol dan arweiniad y gymuned ar gyfer y Ganolfan yn Nhrefdraeth a amlinellwyd yn fanwl yn yr adroddiad. I grynhoi, y ddau opsiwn oedd:

- 1) Mynegiant o ddiddordeb gan Grŵp Gweithredu Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth i weithio gyda PCNPA a Gweithgor Llyfrgell Trefdraeth i rannu gofod yn adeilad presennol y Ganolfan Groeso ac i roi cymorth gwirfoddol i APCAP er mwyn helpu i leihau'r costau rhedeg.
- 2) Mynegiant o ddiddordeb gan Gyngor Tref Trefdraeth i brydlesu adeilad y Ganolfan Groeso am rent isel ac i weithio gyda PCNPA a Gweithgor Llyfrgell Trefdraeth, fel cyd-denantiaid yr adeilad, i ddarparu ystod o wasanaethau ymwelwyr a gwasanaethau cymunedol 'o dan un to'.

Fodd bynnag, gan nad oedd y naill opsiwn na'r llall yn ategu'n llawn nod yr Aelodau i newid y ffordd y cyflwynir gwasanaethau gwybodaeth, roedd y swyddogion wedi cyflwyno trydydd opsiwn. Roedd yr opsiwn hwn yn argymhell bod yr Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Penfro, Cyngor Tref Trefdraeth a Gweithgor Llyfrgell Trefdraeth i ddarparu gwasanaeth llyfrgell a thwristiaeth ar y cyd yn adeilad y llyfrgell bresennol yn Stryd y Bont yn Nhrefdraeth. Am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad, argymhellwyd cymeradwyo'r trydydd opsiwn hwn a bod yr elfennau o gyfarfod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yng Nghanolfan Groeso Trefdraeth yn cau erbyn 28 Chwefror 2018.

Yn gyntaf, diolchodd y Cadeirydd i gymuned Trefdraeth am y negeseuon e-bost a'r llythyrau yr oedd wedi eu derbyn a hefyd cydnabyddodd dderbyn copi o'r ddeiseb ar-lein o Drefdraeth a'r fro oedd yn cynnwys 1400 o lofnodion.

Mynegodd yr Aelodau eu siom nad oedd cymuned Trefdraeth wedi gallu llunio un ymateb unedig i'r ymgynghoriad allai wedi bod yn ffordd ymlaen. Mynegwyd peth pryder ynghylch dyfodol yr adeilad a ph'un a ellid defnyddio'r adeilad gan y gymuned yn y dyfodol. Ond roedd swyddogion o'r farn bod trafodaethau o'r fath yn gynamserol gan mai'r penderfyniad gerbron yr Aelodau oedd darparu canolfan ymwelwyr yn y dyfodol gan yr Awdurdod yn Nhrefdraeth. Petai'r argymhelliad yn cael ei gymeradwyo, byddai'r adeilad yn cael ei ystyried yn 'adeilad diangen', yn unol â pholisi'r Awdurdod ar reoli asedau, a gallai swyddogion gyflwyno papur ar waredu'r adeilad mewn cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

Gan ystyried y potensial o weithio gyda'r gymuned o dan opsiwn 3, cadarnhaodd y swyddogion bod yr Awdurdod yn hapus i weithio gydag unrhyw gymuned o ran darparu hyfforddiant a chyflenwi gwybodaeth i



ymwelwyr a'r trigolion. Awgrymwyd y gallai fod yn bosibl i gynnal staff mewn cyfleuster ar y cyd, megis y llyfrgell bresennol yn Stryd y Bont yn Nhrefdraeth drwy ddarparu arbenigedd staff neu wirfoddolwyr i helpu i ddarparu gwasanaeth twristiaeth i'r dref. Rhagwelwyd pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i ddilyn Opsiwn 3, yna, gydag ewyllys da y trigolion lleol, gellid rhoi trefniadau newydd ar waith mewn pryd ar gyfer tymor 2018.

Nodwyd, er bod nifer o grwpiau yn Nhrefdraeth, y Cyngor Tref oedd y corff etholedig ac roedd rhai Aelodau o'r farn mai'r ffordd orau ymlaen oedd eu cyflwyniad hwy (opsiwn 2), cyn belled ag y gallai'r Gymuned gydweithio i wireddu hyn. Cynigiwyd ac eiliwyd hyn. Tynnodd Swyddog Adran 151 yr Awdurdod sylw'r Aelodau at dudalen 102 o'r adroddiad oedd yn nodi'r goblygiadau ariannol posibl o gymeradwyo opsiwn 2 a allai gyfyngu ar opsiynau'r Awdurdod yn y dyfodol. Felly, awgrymodd y swyddogion, pe bai'r Aelodau'n pleidleisio am opsiwn 2, bod y risgiau hyn yn cael eu harchwilio'n llawn cyn dechrau trafod unrhyw drefniadau gan y gymuned i brynu neu i brydlesu'r adeilad.

Fodd bynnag, ailadroddodd Aelodau eraill y ffaith bod cyflwyno gwasanaethau twristiaeth yn newid ar hyd a lled y wlad, ac roeddent o'r farn y dylai'r penderfyniad a gymerodd yr Awdurdod y llynedd gael ei symud ymlaen drwy gefnogi opsiwn 3 oedd yn dal i ganiatáu i'r Awdurdod weithio mewn partneriaeth â'r gymuned i ddarparu gwasanaethau ar y cyd yn adeilad y llyfrgell ar hyn o bryd yn Stryd y Bont. Roedd cryfder barn a'r sylwadau a wnaed gan y gymuned yn ased yn hyn o beth. Cafodd y gwelliant hwn hefyd ei gynnig a'i eilio.

Cymerwyd pleidlais wedyn ar y gwelliant (i gymeradwyo opsiwn 3) ac enillwyd y bleidlais hon. Daeth y gwelliant i'r cynnig wedyn yn gynnig terfynol, a chymerwyd pleidlais arno, ac enillwyd y bleidlais hon yn ogystal.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Opsiwn 3 fel y nodwyd yn yr adroddiad, a chau'r elfennau o gyfarfod â'r cyhoedd wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Groeso Trefdraeth erbyn 28 Chwefror 2018.

Gohiriwyd y cyfarfod wedi hyn am gyfnod byr o seibiant.

10. Cynigion i Ddatblygu Gardd Furiog Castell Caeriw

Roedd Rheolwr y Gwasanaethau Ymwelwyr, De Sir Benfro, wedi egluro'r sefyllfa yn dilyn cwblhau'r gwaith a ariannwyd gan grant yn y Castell yn 2013, oedd yn cynnwys adeiladu Canolfan Ymwelwyr newydd yn yr Ardd Furiog, a bod y cynigion i gwblhau'r gwaith ailddatblygu wedi cael ei gymeradwyo ond nad oedd y cyllid wedi'i sicrhau. Roedd y cynigion yn cynnwys caffï, tirweddu, plannu, lle chwarae antur, strwythur dan do, siop



a mynedfa newydd i ysgolion, datblygu 'Gardd Nos' ar gyfer Darganfod Awyr Dywyll a deunydd esboniadol newydd.

Roedd cais am grant Cymorth i Fuddsoddi mewn Amwynder Twristiaeth (TAIS) wedi'i gyflwyno i Croeso Cymru fyddai'n talu am 80% o'r gwelliannau i'r Ardd Furiog, ond yn benodol, heb gynnwys datblygu caffi. Roedd arian cyfatebol o £30,000 ar gyfer y prosiect eisoes wedi'i gymeradwyo yng nghyllideb gyfalaf 2018/19. Roedd penderfyniad ar y grant hwn i'w gyhoeddi ar 29 Medi 2017.

Gofynnwyd felly am gymeradwyo gwariant cyfalaf o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod i adeiladu caffi yng Nghaeriw, o fewn yr Ardd Furiog am gost o £84,175. Yn ogystal, os gwrthodir y cais presennol am grant, gofynnwyd am gymeradwyaeth hefyd am wariant cyfalaf o £146,950 pellach o'r cronfeydd wrth gefn i gwblhau'r cynlluniau yn yr Ardd Furiog a nodir uchod, gan roi cyfanswm cost y prosiect o £231,125.

O ran amserlen, y bwriad oedd i'r caffi fod ar agor erbyn diwedd mis Mawrth 2018, a'r gwaith ar yr Ardd Furiog yn cael ei gyflawni y gaeaf canlynol i'w gwblhau erbyn Gwanwyn 2019. Y cynnig oedd rhedeg y caffi yn fewnol gan fod staff y Castell eisoes â phrofiad o wneud hyn. Roedd cynllun busnes ynghlwm wrth yr adroddiad oedd yn rhagweld y byddai'r buddsoddiad wedi'i adennill cyn pen 6 blynedd.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod hwn yn gynllun diddorol a chyffrous, oedd yn gwneud defnydd da o dderbyniadau cyfalaf yr Awdurdod. Serch hynny roedd peth pryder ynglŷn â'r bwriad i gadw'r arlwyio yn fewnol o ystyried yr anawsterau a brofwyd o wneud hynny ym mlynnyddoedd cyntaf Oriol y Parc. Hefyd, roedd rhai cwestiynau ynglŷn â'r hyn oedd ym marn rhai Aelodau yn brisio optimistaidd. Eglurodd y swyddogion eu bod wedi edrych ar y trefniadau masnachfaint ar hyn o bryd yn Oriol y Parc a Chastell Henllys ac roeddent o'r farn y gellid gwneud mwy o elw drwy redeg y caffi eu hunain o ystyried sgiliau a phrofiad y tîm. Fodd bynnag, byddai'r gyllideb yn cael ei monitro'n ofalus. O ran y bwydlenni a'r prisiau, gellid edrych ar hyn eto, ond roedd ymchwil wedi dangos eu bod yn cymharu'n ffafriol â chaffis eraill yn y cyffiniau.

PENDERFYNWYD:

- a) cymeradwyo cyllid o £84,175 ar gyfer y caffi yng Nghaeriw; ac
- b) os nad oedd yr Awdurdod yn llwyddo i sicrhau grant Croeso Cymru, cymeradwyo'r cyllid ar gyfer y prosiect cyfan o £231,125.

11. Melin a Sarn Caeriw - Atgyweiriadau Statudol Deddf Cronfeydd Dŵr

Dywedwyd bod Melin a Sarn Caeriw yn adeiladau rhestredig Gradd II*. Roedd amrywiol waith adfer wedi'i wneud i'r ddau adeilad ers i'r Awdurdod gymryd prydles y felin yn 1983. Roedd angen gwneud gwaith atgyweirio i'r sarn i atal/lleihau dŵr rhag gollwng drwy'r adeilad o bwll y



felin, a ddynodwyd yn gronfa ddŵr risg uchel fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 lle gallai rhyddhau dŵr o'r gronfa heb ei reoli beryglu bywyd. Dyletswydd yr Awdurdod oedd penodi Peiriannydd Goruchwylio a threfnu i archwiliadau blynyddol gael eu gwneud.

Fis Awst 2016 gwnaed archwiliad o Bwll y Felin, y Sarn a'r Felin a chyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol fis Tachwedd 2016 ac argymhellwyd camau i'w gweithredu cyn pen blwyddyn er budd diogelwch. Roedd crynodeb o'r gwaith oedd gofyn ei wneud wedi'i nodi yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau, ac amcangyfrif o'r gost oedd £87,000 a £30,000 ar gyfer ffioedd a chaniatâd, gan roi amcangyfrif o gyfanswm cost y contract o £117,000. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y byddai dirywiad parhaus yn y fframwaith yn anochel yn arwain at waith atgyweirio mwy sylweddol yn y dyfodol.

O dan Orchmynion Sefydlog yr Awdurdod ar Gontractau Mawr (£25,000+), roedd gorchymyn sefydlog 13 yn caniatáu atal y rheolau caffael arferol o dan amodau penodol. Oherwydd yr amserlen dynn iawn i gwblhau'r gwaith atgyweirio cyn diwedd Tachwedd 2017, gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth i ddefnyddio gorchymyn sefydlog 13. Cynigiwyd cysylltu â thri contractwr ag enw da fel yr argymhellwyd gan ymgynghorwyr yr Awdurdod er mwyn cael tri dyfynbris ar gyfer y gwaith.

Gofynnodd yr Aelodau pam taw nawr oedd yr adroddiad yn dod gerbron yr Awdurdod o gofio bod yr arolwg wedi'i dderbyn fis Tachwedd 2016. Atebodd y swyddogion bod hyn i'w briodoli i gyfuniad o absenoldeb oherwydd salwch, yr angen i glustnodi'r ffordd orau o wneud y gwaith atgyweirio a'r angen am i'r gwaith gael ei wneud y tu allan i anterth y tymor ymwelwyr. Ychwanegodd y swyddog bod y gost am ffioedd yn uchel oherwydd natur dechnegol y gwaith atgyweirio ac y byddai swm wrth gefn yn cael ei gynnwys.

PENDERFYNWYD cymeradwyo:

- a) Cyllid o Gronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn yr Awdurdod ar gyfer y gwaith atgyweirio fel y nodir yn yr adroddiad; ac
- b) amrywio Gorchmynion Sefydlog yr Awdurdod ar Gontractau Mawr o ran dewis contractwyr.

12. Adroddiad Blynyddol y Gronfa Datblygu Cynaliadwy 2016-17

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF) yn rhoi cymorth i brosiectau arloesol sy'n cynnig ffordd o fyw sy'n ymarferol ac yn fwy cynaliadwy. Roedd yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Aelodau yn cyflwyno gwybodaeth am y cymorth grant a roddwyd gan yr SDF, gan gynnwys y Grant Bach Gwyrdd (cynllun grant bach a weinyddir gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro), am y cyfnod o Ebrill 2016 hyd at Fawrth 2017.



I grynhoi, roedd yr SDF wedi cyfrannu £144,557 i gynorthwyo 19 o brosiectau. Roedd y prosiectau hyn wedi llwyddo i gael canlyniadau mewn nifer o feysydd gwaith allweddol oedd yn bwysig i'r Parc Cenedlaethol o ran llwyddo i gyflawni amcanion y Cynllun Rheoli a'r Cynllun Gwella. Roedd y cyllid wedi denu £320,709 o arian cyfatebol ac wedi cyfrannu at brosiectau o werth cyffredinol o £465,266.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei hadroddiad a ddisgrifiodd fel adroddiad diddorol ac ysbrydoledig. Cyfeiriodd yr Aelodau eraill at y cysylltiadau ardderchog y mae'r gronfa wedi'i wneud â phrosiectau addysgol.

NODWYD.

13. Ystyried a ddylid eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod adeg ystyried yr eitemau canlynol oherwydd ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Cwestiynodd un Aelod a ddylid eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr ail eitem, ac felly cymerwyd pleidlais ar wahân ar y ddwy eitem.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro ei fod yn hapus, oherwydd yr effaith bosibl ar drefniadau cytundebol y staff, y dylid eithrio'r cyhoedd yn ystod y trafodaethau ar yr adroddiad hwn.

PENDERFYNWYD:

- a) eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried Adroddiad 46/17 Diweddariad ar Waredu Daliad Tir yr Awdurdod a elwir yn Safle Carafanau Parc Cenedlaethol, Sageston, oherwydd ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- b) y dylid eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried Adroddiad 47/17 Trafodaethau ynghylch Adleoli Pencadlys APCAP o Ddoc Penfro i Hwlfordd oherwydd ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

14. Diweddariad ar Waredu Daliad Tir yr Awdurdod a elwir yn Safle Carafanau Parc Cenedlaethol, Sageston

Er budd Aelodau newydd yr Awdurdod, amlinellodd y Prif Weithredwr hanes y safle hwn a'r camau a gymerwyd hyd yn hyn, yn ogystal â rhoi diweddariad ynghylch y datblygiadau diweddaraf.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r camau a gymerwyd gan y swyddogion i waredu'r tir a enwir uchod ar ei werth ar y farchnad erbyn haf 2018 yn dilyn cyfnod o farchnata gan Syrffewyr Siartredig allanol.



15. Trafodaethau ynghylch adleoli Pencadlys APCAP o Ddoc Penfro i Hwlfordd

Er budd Aelodau newydd yr Awdurdod, amlinellodd y Prif Weithredwr y broses oedd wedi arwain at y trafodaethau hyn, ond pwysleisiodd nad oedd cynnig yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

O ystyried y ffaith bod rhai Aelodau wedi mynegi pryder ynghylch y trafodaethau a'r ffaith bod saith Aelod newydd ar yr Awdurdod ers i'r mater gael ei drafod, roedd y Prif Weithredwr o'r farn mai priodol oedd gofyn am farn yr Aelodau a oeddent yn dymuno i'r Awdurdod barhau i drafod cynnig i adleoli gyda'r Cyngor Sir.

Bu'r Aelodau yn trafod a ddylai'r trafodaethau ar y mater hwn barhau, gan fynegi eu hyder yn y modd yr oedd y Prif Weithredwr wedi ymdrin â'r mater hwn. Y cynnig cyntaf a roddwyd gerbron oedd y dylid dod â'r trafodaethau i ben gyda CSP ynghylch adleoli Pencadlys yr Awdurdod. Yna cyflwynwyd gwelliant bod trafodaethau'n parhau, ond bod CSP yn cael dau fis i gyflwyno cynnig i'r Awdurdod i'w ystyried. Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant, a chollwyd y bleidlais hon. Yna, cymerwyd pleidlais ar y cynnig terfynol y dylid terfynu trafodaethau, ac enillwyd y bleidlais hon. Cytunwyd, fodd bynnag, y dylai unrhyw drafodaethau ynghylch cydweithio barhau.

PENDERFYNWYD bod â'r trafodaethau i ben gyda Chyngor Sir Penfro ar gynigion i adleoli ei swyddfa o Ddoc Penfro i Hwlfordd.

